

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllaw i'r Cyfarfod Llawn

Mai 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Uned Cydgysylltu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: cysylltu@cynulliad.cymru
Twitter: [@CynulliadCymru](https://twitter.com/CynulliadCymru)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllaw i'r Cyfarfod Llawn

Mai 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

01. Y Cyfarfod Llawn	1
Amser a Lleoliad.....	1
Busnes y Cyfarfod Llawn	1
Trefn y Trafodion	1
Cofnodion ac Adroddiadau am drafodion y Cyfarfod Llawn	1
TGCh yn y Siambr.....	2
Pleidleisio electronig.....	2
Microffonau yn y Siambr.....	2
Clustffonau yn y Siambr.....	2
Defnyddio deunyddiau clyweledol yn ystod y trafodion	2
02. Ymddygiad a dadleuon yn y Siambr	2
Cadeirydd y Cyfarfod Llawn	2
Cadeirydd dros dro	3
Llywydd dros dro.....	3
Siarad yn y Siambr	3
Egwyddorion cyffredinol.....	3
Terfynau amser.....	4
Ymyriadau	4
Pwyntiau o drefn.....	4
03. Trefn Busnes y Cyfarfod Llawn	4
Cefndir	4
Categoriâu o fusnes y Cyfarfod Llawn	4
Busnes y Llywodraeth.....	4
Busnes y Cynulliad	5
Dyrannu amser rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad	5
Amserlen y Cynulliad	5
Datganiad a Chyhoeddiad Busnes	5
Agenda'r Cyfarfod Llawn	6
04. Math o fusnes y Cyfarfod Llawn	6
Cynigion a gwelliannau.....	6
Egwyddorion cyffredinol.....	6
Cynigion.....	6
Gwelliannau.....	6

Cyflwyno cynigion a gwelliannau.....	7
Dangos cefnogaeth i gynigion a gwelliannau	7
Cynigion 'â dyddiad trafod' a chynigion 'heb ddyddiad trafod'	7
Dethol gwelliannau a'u gosod mewn trefn	7
Gwelliannau sydd heb eu dethol	7
Dad-ddethol gwelliannau.....	8
Gosod gwelliannau mewn trefn	8
Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn	8
Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau'n ffurfiol.....	8
Cynigion a gwelliannau sydd heb eu cynnig	8
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl	9
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl cyn eu gwneud neu eu cynnig	9
Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl ar ôl eu gwneud neu eu cynnig.....	9
Grwpio cynigion neu welliannau	9
Cynigion heb hysbysiad	9
Cynigion gweithdrefnol	9
Cynigion a gwelliannau deddfwriaethol	10
Cynigion o ddiffyg hyder neu ddiswyddo.....	10
Gweinidogion Cymru	10
Llywyddion	10
Comisiynwyr y Cynulliad	10
Penodiadau eraill y Cynulliad	11
Cynigion i atal Rheolau Sefydlog	11
Penderfyniadau ar gynigion a gwelliannau – pleidleisio.....	11
Pleidleisio a chyfnod pleidleisio	11
Y Gloch	12
Pleidleisio electronig.....	12
Pleidleisio drwy godi dwylo.....	12
Pleidleisio drwy alw'r gofrestr	12
Defnyddio'r bleidlais fwrw	13
Dilysrwydd pleidlais	13
Cyfyngiadau ar bleidleisio	13
Dadleuon.....	13
Mathau o ddadleuon.....	13
Amseriad a threfn dadleuon.....	13

Dadleuon Aelodau Unigol	14
Dadleuon Byr	14
Trefn y Ddadl Fer	15
Dadleuon Deddfwriaethol.....	15
Strwythur dadl Cyfnod 1	15
Strwythur dadl Cyfnod 3 / Cyfnod Adrodd	16
Cyfnod 4 – Y Cyfnod Terfynol	16
Cydsyniad Brenhinol	17
Cwestiynau llafar.....	17
Cefndir	17
Amserlen ar gyfer cwestiynau llafar	17
Cyflwyno cwestiynau llafar	17
Trafodion sesiynau cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn	17
Amser ar gyfer cwestiynau.....	18
Cwestiynau atodol	18
Nifer y cwestiynau atodol	18
Cwestiynau’r arweinwyr.....	18
Cwestiynau’r llefarwyr	18
Cwestiynau wedi’u grwpio	18
Cwestiynau caeedig	19
Atebion i gwestiynau	19
Tynnu cwestiynau’n ôl	19
Cwestiynau nas gofynnwyd	19
Cwestiynau nas cyrhaeddwyd.....	19
Cwestiynau Ysgrifenedig	19
Datganiadau llafar.....	20
Mathau o ddatganiadau llafar	20
Hysbysiad am ddatganiadau llafar	20
Amseru a hyd datganiadau llafar	20
Cwestiynau am ddatganiadau llafar.....	20
Ymyriadau yn ystod datganiadau llafar.....	20
Datganiadau personol	20
Datganiadau ysgrifenedig.....	21
Materion brys.....	21
Cwestiynau llafar brys.....	21
Meini prawf ar gyfer cwestiynau llafar brys.....	21

Amser ar gyfer cwestiynau llafar brys	21
Cwestiynau atodol i gwestiynau llafar brys	21
Grwpio cwestiynau llafar brys	21
Dadleuon brys.....	22
Y ddadl frys ei hun.....	22

01. Y Cyfarfod Llawn

Amser a Lleoliad

01. Cynhelir y Cyfarfod Llawn yn Siambr y Cynulliad bob prynhawn Mawrth a Mercher pan mae'r Cynulliad yn eistedd¹. Fel arfer, bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.30 a bydd yn cael ei gynnal yn gyhoeddus bob amser.
02. Gall holl Aelodau'r Cynulliad fod yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn a dyma un o'r prif ddulliau i Aelodau ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i gyfrif, deddfu ar gyfer Gymru a chynrychioli eu hetholwyr.
03. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd eistedd yn yr oriel gyhoeddus a gwyllo'r Cyfarfod Llawn; gellir archebu sedd hyd at dair wythnos ymlaen llaw ac argymhellir archebu ymlaen llaw er mwyn sicrhau sedd (drwy anfon e-bost at cysylltu@cynulliad.cymru neu ffonio'r Llinell Archebu ar 0300 200 6565).
04. Mae hefyd yn bosibl gwyllo pob Cyfarfod Llawn yn fyw ar <http://www.senedd.tv> neu ar y sgriniau teledu a ddarperir ar ystâd y Cynulliad.

Busnes y Cyfarfod Llawn

05. Mae'r busnes a drafodir mewn Cyfarfod Llawn y cynnwys:

- cynigion ar gyfer dadl a / neu benderfyniad ac unrhyw welliannau cysylltiedig;
- cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiynwyr y Cynulliad;
- datganiadau; a
- thrafodion deddfwriaethol.

Mae eglurhad manylach o bob un o'r rhain yn **Adran 4** isod.

Trefn y Trafodion

06. Caiff gweithdrefnau'r Cynulliad eu rheoli gan ei Reolau Sefydlog . Mae'r rheolau hyn yn ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cofnodion ac Adroddiadau am drafodion y Cyfarfod Llawn

07. Cedwir cofnod o'r holl fusnes yn y Cyfarfod Llawn a'i gofnodi'n unol â'r Rheolau Sefydlog. Cyfeirir at y cofnod hwn fel 'y Cofnod o Drafodion', neu'n syml, fel 'y Cofnod'.
08. Cyhoeddir y Cofnod o fewn 24 awr i ddiwedd y cyfarfod. Mae'n cynnwys cyfleuster cyfeirio at adrannau perthnasol o [senedd.tv](http://www.senedd.tv), a gellir ei agor drwy wefan y Cynulliad.
09. Mae crynodeb o'r busnes a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn y ddogfen 'Pleidleisiau a Thrafodion', a gaiff ei chyhoeddi fel arfer o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod. Mae'n cynnwys manylion am gwestiynau llafar sydd wedi'u gofyn; a chanlyniadau pleidleisiau ar gynigion a gwelliannau. Mae 'Crynodeb o Bleidleisiau' – sy'n dangos sut y pleidleisiodd pob un o'r

¹ Os nad oes Cyfarfod Llawn wedi'i drefnu ar gyfer dyddiad neu amser penodol, er enghraifft yn ystod cyfnod o doriad, gall y Llywydd, ar gais y Prif Weinidog, alw'r Cynulliad yn ôl i gynnal trafodaeth frys ar fater sydd o bwys i'r cyhoedd.

Aelodau ar eitemau penodol (neu os nad oeddent wedi pleidleisio) – yn cael ei chyhoeddi fel arfer o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod.

TGCh yn y Siambr

10. Mae'r Siambr yn siambr drafod electronig. Mae system gyfrifiadurol wedi'i neilltuo yn gweithredu yn y Siambr ac mae modd cael gafael ar yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i drafodion y Cyfarfod Llawn o gyfrifiadur unigol pob aelod. Caiff pob Aelod fynediad llawn i weddill eu system TGCh yn y Siambr hefyd.
11. Yn yr un modd, mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Llywydd i gadeirio Cyfarfod Llawn ar gael yn electronig ar y cyfrifiadur yn y Siambr.

Pleidleisio electronig

12. Mae'r rhan fwyaf o'r pleidleisio'n digwydd yn y Siambr yn electronig. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y system bleidleisio electronig ym mharagraffau 100-103.

Microffonau yn y Siambr

13. Mae microffon sefydlog wedi'i gysylltu wrth ddesg pob Aelod yn y Siambr. Caiff y microffonau eu defnyddio ar gyfer recordio a darlledu'r Cyfarfod Llawn, chwyddo sain yn y Siambr a sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

Clustffonau yn y Siambr

14. Mae clustffonau wedi'u darparu i'r holl Aelodau i'w defnyddio i chwyddo'r sain yn y Siambr neu wrando ar y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Defnyddio deunyddiau clyweledol yn ystod y trafodion

15. Mae'r cyfleusterau TGCh yn y Siambr yn rhoi cyfle i Aelodau ddefnyddio deunydd clyweledol yn ystod trafodion. Gall yr Aelodau ddefnyddio'r sgriniau yn y Siambr i ddangos ffilmiau neu gyflwyniadau electronig sy'n berthnasol i'r eitem arbennig honno o fusnes.

02. Ymddygiad a dadleuon yn y Siambr

16. Mae'r rheolau ar gyfer ymddygiad a dadleuon yn y Siambr yn dod o dan y Rheolau Sefydlog. Y prif egwyddorion yw:
 - rhaid i Aelodau bob amser drwy eu hymddygiad hyrwyddo parch at y Cynulliad a dangos parch a chwarteisi at Aelodau eraill;
 - rhaid i Aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Llywydd yn eu rhoi ynghylch ymddygiad a threfn yn y Cyfarfod Llawn.

Cadeirydd y Cyfarfod Llawn

17. Y cadeiryddion mewn Cyfarfod Llawn yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. Mae'n rhaid iddynt gadeirio'n ddiduedd, gan sicrhau bod trefn yn cael ei chadw bob amser a bod hawliau holl Aelodau'r Cynulliad wedi'u diogelu. Bydd y Llywyddion:
 - yn sicrhau bod busnes yn cael ei drafod ar sail cydraddoldeb a thegwch tuag at bob grŵp gwleidyddol a phob Aelod;

- yn cadw trefn, gan alw Aelodau yn ôl eu disgrisiwn gan sicrhau bod buddiannau'r holl Aelodau'n cael eu trin yn deg;
- yn disgyblu unrhyw Aelod o'r Cynulliad neu aelodau o'r cyhoedd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, sy'n caniatáu i'r Llywydd eithrio Aelodau o drafodion y Cynulliad os oes angen;
- yn penderfynu a yw eitem o fusnes benodol mewn trefn, gan ymateb i unrhyw bwyntiau o drefn y mae Aelodau'r Cynulliad yn eu codi (gweler paragraffau 31 – 32);
- yn dehongli unrhyw Reolau Sefydlog sy'n berthnasol i drafodion ac yn dyfarnu ynghylch eu cymhwyso os oes angen; ac
- yn cynnal holl bleidleisiau'r Cyfarfod Llawn.

Cadeirydd dros dro

18. Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy pan fo'r naill neu'r llall yn cadeirio Cyfarfod Llawn, gadeirio dros dro. Y cynsail ers 2007 yw i un o Gomisiynwyr y Cynulliad gadeirio ar achlysuron o'r fath.
19. Mae Rheolau Sefydlog yn caniatáu i Gadeirydd dros dro gadeirio eitemau dilynol, a 'gofyn y cwestiwn' i bleidleisio ar gynnig ar ddiwedd dadl. Fodd bynnag, ni all Cadeirydd dros dro gadeirio'r "Cyfnod Pleidleisio", rheoli o ran pwyntiau o drefn na chaniatáu i gynnig gweithdrefnol gael ei wneud. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cyfeirio'r eitem i'r Llywydd reoli arno, neu, pe bai angen, atal y cyfarfod nes y byddai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn dychwelyd i'r Siambr.

Llywydd dros dro

20. Os bydd y Llywydd a'r Dirprwy ill dau'n methu â gweithredu am gyfnod hir (hynny yw, cyfnod a fyddai'n hwy na'r hyn sy'n briodol i wahodd cadeirydd dros dro i gadeirio Cyfarfod Llawn), caiff y Cynulliad ethol Llywydd Dros Dro.
21. Fel arfer, bydd ethol Llywydd Dros Dro'n digwydd ar ddechrau Cyfarfod Llawn. Os bydd y naill Lywydd neu'r llall yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, caiff yr etholiad ei gadeirio ganddo ef. Os nad yw'r naill na'r llall yn gallu gweithredu, bydd y Clerc yn cadeirio'r etholiad.
22. Caiff unrhyw Aelod a etholir yn Llywydd dros dro arfer holl swyddogaethau'r Llywydd.

Siarad yn y Siambr

Egwyddorion cyffredinol

23. Caniateir i'r holl Aelodau siarad mewn Cyfarfod Llawn ac fe'u gelwir yn ôl disgrisiwn y Llywydd. Dylai Aelodau sy'n dymuno cyfrannu at drafodion hysbysu'r Llywydd ymlaen llaw.
24. Dim ond ar ôl cael eu galw i siarad gan y Llywydd y caiff Aelodau siarad yn ystod trafodion a dim ond un Aelod a gaiff siarad ar y tro. Caiff Aelodau a elwir i siarad naill ai sefyll neu eistedd yn eu lle a rhaid iddynt annerch y Llywydd yn hytrach nag Aelodau eraill.
25. Ni chaiff Aelod siarad pan fydd y Llywydd yn siarad ac, os yw'n dymuno siarad ar unrhyw eitem o fusnes, rhaid bod yn bresennol yn y Siambr drwy gydol yr eitem honno.
26. Bydd unrhyw Aelod sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn yn cael ei alw i drefn gan y Llywydd, a bydd yn rhaid iddo/iddi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Llywydd yn eu rhoi

ynghylch ei ymddygiad. Fel arfer, bydd y Llywydd yn gofyn i'r Aelod dynnu'r sylwadau y credir eu bod yn groes i'r drefn yn ôl neu eu haralleirio, ac ymddiheuro os yw'n briodol.

27. Caiff Aelodau siarad yn Gymraeg neu Saesneg. Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu i Aelodau drwy eu clustffonau yn y Siambr.

Terfynau amser

28. Yn ystod y rhan fwyaf o eitemau busnes, rhoddir terfynau amser i Aelodau ar eu cyfraniadau. Gosodir terfynau amser gan y Llywydd yn ôl y math o fusnes a gynhelir.
29. Mae clociau'r Siambr yn amseru pob siaradwr, gan droi'n goch i ddangos bod amser yr Aelod ar ben.

Ymyriadau

30. Caiff Aelod sy'n siarad ildio i Aelod arall sy'n dymuno ymyrryd. Diben ymyriadau yw cael eglurhad ar unrhyw sylwadau a wneir gan yr Aelod sy'n siarad. Nid oes hawl i ymyrryd ac nid oes raid i'r Aelod sy'n siarad ildio.

Pwyntiau o drefn

31. Gall unrhyw Aelod godi pwynt o drefn ynghylch rheolau gweithdrefn y Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y trafodion mewn Cyfarfod Llawn, gyda chaniatâd y Llywydd. Y diben yw gofyn am eglurhad gan y Llywydd ynghylch y dehongliad o Reolau Sefydlog a rheolau'r Cynulliad.
32. Bydd y Llywydd yn dyfarnu ar bwynt o drefn yn ôl ei ddisgresiwn / disgresiwn a chaiff nodi y bydd yn edrych yn y Cofnod o Drafodion ac YN ymateb maes o law.

03. Trefn Busnes y Cyfarfod Llawn

Cefndir

33. Mae busnes a drafodir mewn Cyfarfod Llawn yn cael ei amserlennu gan y Pwyllgor Busnes.
34. Cadeirydd y Pwyllgor Busnes yw'r Llywydd a'i aelodau yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth a'r Rheolwr Busnes dros bob un o'r pleidiau. Fel arfer, mae'r pwyllgor yn cwrdd yn breifat bob bore Mawrth i drafod y cynigion ar gyfer trefn busnes y Llywodraeth a chytuno ar drefn busnes y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn am y tair wythnos nesaf.
35. Mae rhagor o wybodaeth am rôl a gweithrediadau'r Pwyllgor Busnes ar wefan y Cynulliad².

Categoriâu o fusnes y Cyfarfod Llawn

36. Mae'r Rheolau Sefydlog yn diffinio dau gategori o fusnes y Cyfarfod Llawn: busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad.

Busnes y Llywodraeth

37. Mae busnes y Llywodraeth yn cynnwys:

– cwestiynau llafar (ac eithrio cwestiynau llafar i Gomisiwn y Cynulliad);

² <http://www.assembly.wales/SeneddBusiness>

- datganiadau gan aelod o'r Llywodraeth;
- deddfwriaeth lle mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth;
- unrhyw gynnig a gyflwynir gan aelod o'r Llywodraeth; ac
- unrhyw ddadl frys a gynigir gan aelod o'r Llywodraeth;

Busnes y Cynulliad

38. Mae busnes y Cynulliad yn cynnwys pob eitem o fusnes ac eithrio'r rheini a amlinellir uchod. Rhai o'r enghreifftiau yw:

- adroddiadau pwyllgorau;
- deddfwriaeth lle nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth;
- Dadleuon Byr; ac
- unrhyw gynnig sydd wedi'i gyflwyno gan Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth.

Dyrannu amser rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad

39. Er mwyn sicrhau bod amser yn cael ei ddyrannu'n deg yn y Cyfarfod Llawn rhwng ystyried busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad, mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i gyfanswm yr amser a ddyrennir iddynt mewn blwyddyn Cynulliad fod yn y cyfrannedd 3:2 yn y drefn honno. Fel arfer, rhaid i fusnes y Llywodraeth gael ei drafod yn gyntaf.

Amserlen y Cynulliad

40. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'r Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi amserlen, am gyfnodau o ddim llai na chwe mis, y mae'n rhaid iddi gynnwys y canlynol:

- amserlen amlinellol y Cyfarfod Llawn;
- yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau;
- yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol;
- toriadau; a
- dyddiadau ar gyfer cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad.

41. Cyhoeddir yr amserlen ar wefan y Cynulliad.³

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

42. Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn amlinellu busnes y Cyfarfod Llawn am gyfnod o dair wythnos. Mae'r wythnos gyntaf yn cynnwys y busnes y cytunwyd arno ar gyfer Cyfarfod Llawn yr wythnos ddilynol. Ar gyfer y ddwy wythnos ddilynol, mae rhestrau dros dro o fusnes, sy'n agored i'w newid.

43. Gwneir y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn y Cyfarfod Llawn bob wythnos gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. Caniateir i Aelodau ofyn cwestiynau am y Datganiad a

³ http://www.assembly.wales/en/bus-home/Pages/assembly_timetable.aspx

Chyhoeddiad Busnes. Mae hyn yn gyfle i Aelodau ofyn i'r Llywodraeth wneud datganiad neu gynnal dadl yn y Siambr ar fater sy'n peri pryder iddynt.

Agenda'r Cyfarfod Llawn

44. Mae rhestr fanwl o'r holl eitemau busnes i'w cael yn Agenda'r Cyfarfod Llawn a gaiff ei pharatoi ar gyfer pob cyfarfod. Mae'r Agenda yn rhestru'r holl fusnes yn y drefn y caiff ei ystyried ac yn cynnwys linc at unrhyw ddogfennau sydd wedi'u nodi fel rhai perthnasol i'r busnes o dan sylw.
45. Caiff Agenda'r Cyfarfod Llawn ei gyhoeddi wythnos cyn y cyfarfod fel arfer, a gellir ei diweddarau ar unrhyw adeg hyd at ddechrau'r Cyfarfod Llawn perthnasol, neu hyd yn oed yn ystod y cyfarfod ei hun. Os newidir Agenda'r Cyfarfod Llawn, rhoddir rhif fersiwn newydd ar yr Agenda perthnasol a chaiff ei ailgyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

04. Math o fusnes y Cyfarfod Llawn

Cynigion a gwelliannau

Egwyddorion cyffredinol

46. Mae cynigion yn ddull o gael penderfyniad gan y Cynulliad neu o gynnig dull gweithredu penodol. Bydd cynigion, os cytunir arnynt, yn dod yn Benderfyniad y Cynulliad.
47. Mae'r rhan fwyaf o gynigion yn agored i'w newid oni bai y nodir hynny yn y Rheolau Sefydlog. Gallai gwelliant fod at y diben o addasu cynnig i'w wneud yn fwy derbyniol i'r Cynulliad neu o argymhell dull gweithredu i'r Cynulliad sy'n wahanol i'r cynnig gwreiddiol.

Cynigion

48. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i'r busnes yn y Cyfarfod Llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir, ac eithrio'r hyn a ganlyn:
 - datganiadau;
 - cyflwyno Aelodau newydd;
 - teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;
 - cwestiynau llafar;
 - dadleuon brys; a
 - trafodion sy'n ymwneud â'r Ddadl Fer.
49. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o'r eitemau ar Agenda'r Cyfarfod Llawn ac eithrio cwestiynau a datganiadau yn destun cynnig fel arfer.

Gwelliannau

50. Caniateir cynnig gwelliannau i'r rhan fwyaf o gynigion. Fel arfer, bydd gwelliannau'n cynnig:
 - bod geiriau penodol mewn cynnig yn cael eu dileu;
 - bod geiriau eraill yn cael eu rhoi yn lle geiriau penodol mewn cynnig;
 - bod geiriau newydd yn cael eu mewnosod yn y cynnig neu eu hychwanegu ato;

51. Rhaid i unrhyw welliannau fod o fewn cwm pas pwnc y cynnig gwreiddiol.

Cyflwyno cynigion a gwelliannau

52. Ac eithrio pan fydd y Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall (gweler paragraffau 75 i 77 ar gynigion heb hysbysiad), caniateir i gynnig gael ei gyflwyno gan unrhyw Aelod a rhaid ei gyflwyno o leiaf bum niwrnod gwaith cyn ei drafod.

53. Yn yr un modd, ac eithrio pan fydd y Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, mae'n rhaid i welliannau gael eu cyflwyno o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y trafodir y cynnig.

54. Mae'r gallu i dderbyn cynnig neu welliant – sef a yw'n dderbyniol fel eitem o fusnes – yn fater i'r Llywydd.

Dangos cefnogaeth i gynigion a gwelliannau

55. Gellir cyflwyno cynigion yn enw un neu fwy o Aelodau. Gall unrhyw Aelod ddangos ei fod o blaid cynnig neu welliant, drwy ychwanegu ei enw iddo ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Rhaid gwneud hyn cyn diwedd y diwrnod gwaith cyn y mae disgwyl i'r busnes perthnasol gael ei ystyried mewn Cyfarfod Llawn.

Cynigion 'â dyddiad trafod' a chynigion 'heb ddyddiad trafod'

56. Er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn gwahaniaethu rhyngddynt, caniateir i gynigion gael eu cyflwyno naill ai fel cynigion 'â dyddiad trafod' neu fel cynigion 'heb ddyddiad trafod'. Mae hyn yn gonfensiwn sydd wedi'i sefydlu i wahaniaethu rhwng busnes y cytunwyd arno (hynny yw, busnes y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i nodi / wedi cytuno arno) a busnes arall sydd wedi'i gynnig (hynny yw, busnes y mae unrhyw un o'r Aelodau'n dymuno ei gyflwyno i'w drafod neu ei ystyried ond nad oes amser wedi'i neilltuo ar ei gyfer eto yn y Cyfarfod Llawn gan y Pwyllgor Busnes).

57. Bydd cynnig wedi'i ddynodi'n gynnig 'â dyddiad trafod' os yw dadl ar y cynnig hwnnw wedi'i hamserlennu yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Byddai cynnig lle na chytunwyd eto ar ddyddiad i'w drafod yn cael ei ddynodi a'i gyhoeddi fel cynnig 'heb ddyddiad trafod'.

58. Er y caniateir i gynnig 'heb ddyddiad trafod' gael ei gyflwyno ar unrhyw adeg, ni ellir ei drafod mewn Cyfarfod Llawn nes bydd y cyfnod rhybudd arferol ar gyfer y cynnig dan sylw wedi dod i ben.

Dethol gwelliannau a'u gosod mewn trefn

59. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, caiff gwelliannau eu dethol i'w trafod mewn Cyfarfod Llawn gan y Llywydd.

Gwelliannau sydd heb eu dethol

60. Er y gallai gwelliant fod yn dderbyniol pan gaiff ei gyflwyno, caiff y Llywydd wrthod ei ddethol os yw o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes yn ei gwneud yn briodol ei wrthod.

61. Pan wneir penderfyniad o'r fath, caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi yn Agenda'r Cyfarfod Llawn a bydd y gwelliant wedi'i farcio fel un sydd "heb ei ddethol". Rhoddir gwybod i'r Aelod a gyflwynodd y gwelliant am benderfyniad y Llywydd ac ni chaiff y gwelliant ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Dad-ddethol gwelliannau

62. Caniateir i welliannau sydd wedi'u dethol i'w trafod ac wedi'u cynnig mewn Cyfarfod Llawn gael eu dad-ddethol wedyn gan y Llywydd. Fel arfer, byddai gwelliant yn cael ei ddad-ddethol os byddai, ar ôl ei dderbyn, yn mynd yn groes i benderfyniad yr oedd y Cynulliad wedi'i wneud eisoes ar y cynnig neu ar welliannau eraill, neu'n creu cynnig afresymol. Er enghraifft, os derbynnir gwelliant sy'n dileu Pwynt 1 mewn cynnig, bydd unrhyw welliannau a geir wedyn i Bwynt 1 yn y cynnig yn cael eu dad-ddethol.
63. Pan fydd yn glir y byddai penderfyniad penodol ar welliant yn arwain at ddad-ddethol gwelliant arall, cyhoeddir y wybodaeth hon yn Agenda'r Cyfarfod Llawn.

Gosod gwelliannau mewn trefn

64. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Llywydd benderfynu ym mha drefn y caiff gwelliannau eu trafod yn y Cyfarfod Llawn. Cyfeirir at hyn fel "gosod gwelliannau mewn trefn".
65. Nodir ym mha drefn y bydd gwelliannau'n cael eu trafod yn Agenda'r Cyfarfod Llawn.

Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn

66. Pan ddeuir at yr eitem fusnes berthnasol ar Agenda'r Cyfarfod Llawn, bydd y Llywydd yn galw'r Aelod sydd i fod i wneud y cynnig. Fel arfer, gall unrhyw Aelod wneud cynnig, heblaw am yr eithriadau a ganlyn:
- bod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer trefnu busnes yn gymwys - e.e. dim ond aelodau o'r Llywodraeth a all wneud cynigion yn enw Llywodraeth Cymru, ac aelodau'r grwpiau gwleidyddol perthnasol fydd yn gwneud cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn enwau eu grwpiau gwleidyddol.
 - mae rhai Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau neilltuol wneud cynigion penodol – e.e. dim ond un o Weinidogion Cymru a all wneud cynigion cyllideb blynyddol.
67. Caiff gwelliannau eu cynnig yn y drefn y maent yn ymddangos ar Agenda'r Cyfarfod Llawn - hynny yw, y drefn y maent wedi'u gosod ynddi (mae mwy o wybodaeth ym mharagraffau 63 - 64 am osod gwelliannau mewn trefn).
68. Fel arfer caniateir i Aelodau siarad wrth wneud cynnig neu gynnig gwelliant. Bydd dyrannu'r amser i Aelodau siarad ar wahanol fathau o gynigion a gwelliannau'n cael ei benderfynu gan y Llywydd.

Gwneud cynigion a chynnig gwelliannau'n ffurfiol

69. Os nad yw Aelodau'n dymuno siarad ar destun cynnig neu welliant, caniateir iddynt ei gynnig "yn ffurfiol". Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fyddant yn siarad ar destun y cynnig neu'r gwelliant ar ôl cael eu gwahodd i siarad gan y Llywydd. Yn lle hynny, byddent fel arfer yn dweud "yn ffurfiol".

Cynigion a gwelliannau sydd heb eu cynnig

70. Caiff Aelodau ddewis peidio â gwneud cynnig neu gynnig gwelliant. Os dewisant wneud hyn, dylai gael ei egluro i'r Siambr wrth iddynt siarad ar destun y cynnig neu'r gwelliant.

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl cyn eu gwneud neu eu cynnig

71. Gall Aelod dynnu ei gynnis neu welliant yn ôl cyn ei wneud neu ei gynnis drwy roi hysbysiad i'r Swyddfa Gyflwyno. Gellir tynnu cynnis neu welliant yn ôl ar unrhyw bwynt cyn ei wneud neu ei gynnis, er ei bod yn arferol rhoi dwy awr o rybudd i'r Swyddfa Gyflwyno. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod modd tynnu cynnis neu welliant yn ôl yn ystod Cyfarfod Llawn. Os bydd hyn yn digwydd, caiff Aelodau eu hysbysu gan y Swyddfa Gyflwyno a chaiff ei nodi yn Agenda'r Cyfarfod Llawn os yw amser yn caniatáu.

Tynnu cynigion a gwelliannau'n ôl ar ôl eu gwneud neu eu cynnig

72. Ni ellir tynnu cynnis neu welliant yn ôl ar ôl ei wneud neu ei gynnis, yn ystod Cyfarfod Llawn, oni bai fod yr holl Aelodau'n cytuno ar hynny, yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Ar ôl ei wneud neu ei gynnis, ystyrir bod cynnis neu welliant "ym meddiant" y Cynulliad ac felly ei bod yn ofynnol cael caniatâd gan y Cynulliad i'w dynnu'n ôl.
73. Os bydd Aelod yn cynnis tynnu cynnis neu welliant yn ôl wedi iddo ei gynnis, bydd y Llywydd yn gofyn cwestiwn i'r Cynulliad iddo gael ei dynnu'n ôl. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu ei dynnu'n ôl, rhaid cynnal pleidlais ar y cynnis i'w dynnu'n ôl.

Grwpio cynigion neu welliannau

74. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Llywydd gynnis bod cynigion yn cael eu grwpio er mwyn eu trafod. Fel arfer, dim ond os yw cynigion yn ddigon tebyg y byddant yn cael eu grwpio. Bydd unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud gan y Llywydd i gynnis bod cynigion yn cael eu grwpio yn cael ei nodi ar Agenda'r Cyfarfod Llawn cyn y cyfarfod. Gellir grwpio gwelliannau o dan yr un trefniadau.
75. Os bydd y Llywydd yn cynnis grwpio cynigion neu welliannau, gofynnir y cwestiwn i'r Cynulliad iddynt gael eu trafod gyda'i gilydd. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu eu grwpio, rhaid trafod y cynigion ar wahân.

Cynigion heb hysbysiad

76. Caniateir trafod rhai mathau o gynigion heb roi'r rhybudd arferol o bum niwrnod, lle mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi hynny. Mae hyn yn cynnwys busnes sydd wedi'i restru o dan y categori o fusnes y ceir ei drafod heb hysbysiad ac sy'n mynd ymlaen ar sail cynnis: etholiadau, enwebiadau neu benodiadau gan y Cynulliad; a chynigion gweithdrefnol. Mae'n ofynnol cael cytundeb gan y Llywydd ar gyfer unrhyw fusnes y caniateir ei drafod heb hysbysiad.

Cynigion gweithdrefnol

77. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, gellir trafod cynigion gweithdrefnol heb hysbysiad a byddant yn cael blaenoriaeth dros bob busnes arall. Mae cynigion gweithdrefnol yn cynnwys:

- atal, ymestyn amser neu ohirio eitem o fusnes;
- dod â dadl i ben;
- cyfeirio mater at bwyllgor; neu
- unrhyw faterion eraill sy'n briodol ym marn y Llywydd.

78. Caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod siarad yn fyr o blaid unrhyw gynneg gweithdrefnol, ac i Aelod arall siarad yn gryno yn ei erbyn, ac wedyn rhaid iddo wahodd y Cynulliad i dderbyn y cynneg. Os bydd unrhyw wrthwynebiad, cynhelir pleidlais ar y cynneg yn syth.

Cynigion a gwelliannau deddfwriaethol

79. Bydd y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yn cael ei hystyried o leiaf unwaith mewn Cyfarfod Llawn wrth iddi fynd drwy'r Cynulliad. Bydd rhai mathau o is-ddeddfwriaethau sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol, Biliau'r Cynulliad, a chynigion cydsyniad sy'n ymwneud â Biliau Senedd y DU i gyd yn cael eu hystyried o leiaf unwaith yn y Siambr. Mae mwy o wybodaeth am ystyried deddfwriaeth gan y Cynulliad ar wefan y Cynulliad.⁴

Cynigion o ddiffyg hyder neu ddiswyddo

Gweinidogion Cymru

80. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer cyflwyno cynigion o ddiffyg hyder mewn cysylltiad â Gweinidogion Cymru. Os caiff cynneg o'r fath ei basio, yna rhaid i'r Llywodraeth ymddiswyddo. Nid oes darpariaeth ar gyfer cyflwyno cynigion a fyddai'n gwneud i Weinidogion unigol ymddiswyddo. Er bod cynigion o ddiffyg hyder wedi cael eu cyflwyno a'u trafod mewn cysylltiad â Gweinidogion unigol, nid oes gan y rhain effaith gyfreithiol ac ni fyddai'n rhaid i'r Gweinidog dan sylw ymddiswyddo pe bai cynneg o'r fath yn cael ei basio.
81. Rhaid i gynneg yn nodi nad oes gan Weinidogion Cymru hyder y Cynulliad mwyach gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynneg o'r fath, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynneg gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynneg.
82. Os derbynnir unrhyw gynneg o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, rhaid i holl Weinidogion Cymru ymddiswyddo yn unol ag adran 48(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywyddion

83. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu cyflwyno cynneg y dylid diswyddo Llywydd neu Ddirprwy Lywydd.
84. Rhaid i gynneg i ddiswyddo'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynneg o'r fath, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynneg gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynneg.
85. Os derbynnir unrhyw gynneg o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, bydd swydd y Llywydd neu'r Dirprwy, yn ôl fel y digwydd, yn dod yn wag ar unwaith.

Comisiynwyr y Cynulliad

86. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynneg y dylai Aelod penodol (ac eithrio'r Llywydd sy'n dal ei swydd fel cadeirydd y Comisiwn yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd) gael ei ddiswyddo o Gomisiwn y Cynulliad.

⁴ <http://www.cynulliad.cymru/deddfwriaeth>

87. Bydd neilltuo amser mewn Cyfarfod Llawn i drafod cynnig o'r math hwn yn fater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Busnes.
88. Os derbynnir unrhyw gynneg o'r fath mewn Cyfarfod Llawn, caiff yr Aelod hwnnw ei ddiswyddo o'r Comisiwn ar unwaith.

Penodiadau eraill y Cynulliad

89. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, pan gaiff y Cynulliad, o dan unrhyw ddeddfiad, ddiswyddo deiliad swydd berthnasol, rhaid i'r diswyddiad hwnnw (yn amodol ar unrhyw amodau a osodir gan y deddfiad hwnnw) gael ei wneud drwy benderfyniad gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.
90. Rhaid i gynneg y dylid diswyddo unrhyw ddeiliad swydd o'r fath gael ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod. Os cyflwynir cynneg o'r fath, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl i'r cynneg gael ei drafod. Rhaid i ddadl o'r fath gael ei chynnal o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynneg.

Cynnegion i atal Rheolau Sefydlog

91. Gellir atal unrhyw Reol Sefydlog (neu unrhyw ran ohoni) dros dro at ddiben penodol ac mewn perthynas â diwrnod penodol. Caiff Rheolau Sefydlog eu hatal weithiau er mwyn cyflwyno eitem o fusnes i gael ei hystyried gan y Cynulliad ar fyr rybudd.
92. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynneg i atal Rheol Sefydlog (neu unrhyw ran ohoni) dros dro. Fodd bynnag, rhaid ei gyflwyno nid llai nag un diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.
93. Caiff y Llywydd ganiatáu i gynneg o'r fath gael ei wneud heb hysbysiad os yw'n fodlon na fyddai gwneud hynny'n gamddefnydd o weithdrefnau'r Cynulliad nac yn amharu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Cynulliad.
94. Ni fydd cynneg i atal Rheolau Sefydlog yn dod i rym oni bai fod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynneg.

Penderfyniadau ar gynnegion a gwelliannau – pleidleisio

95. Diben pob cynneg neu welliant yw cael penderfyniad gan y Cynulliad. Gwneir hyn drwy bleidleisio. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i'r Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol ac yn bersonol ond nid yw'n ofynnol iddynt bleidleisio.

Pleidleisio a chyfnod pleidleisio

96. Ceir gwneud penderfyniadau (neu gynnal pleidleisiau) ar gynnegion a gwelliannau'n syth ar ôl eu trafod neu eu gohirio tan amser penodedig neu bwynt penodol yn Agenda'r Cyfarfod Llawn (a elwir fel arfer yn "Cyfnod Pleidleisio"). Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno yn ei gyfarfod wythnosol ar "Gyfnod Pleidleisio" ar gyfer pob Cyfarfod Llawn.
97. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ar ddiwedd trafodion ar eitem o fusnes, rhaid i'r Llywydd wahodd y Cynulliad i gytuno ar unrhyw gwestiwn y mae angen cytuno arno er mwyn cwblhau'r busnes. Os na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir bod y Cynulliad wedi derbyn y busnes (gelwir hyn yn bleidleisio "drwy amneidio"). Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, caiff y busnes ei ohirio tan y "Cyfnod Pleidleisio", pan gynhelir pleidlais wedi'i chofnodi'n electronig.

98. Bydd yr unig eithriad i'r rheol hon yn codi os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu pennu amser neu bwynt yn ystod busnes y Cyfarfod Llawn ar y diwrnod hwnnw ar gyfer cynnal y bleidlais berthnasol. Caiff hyn ei nodi ar Agenda'r Cyfarfod Llawn cyn y cyfarfod.

Y Gloch

99. Cyn cynnal pleidlais, os bydd o leiaf dri Aelod yn gofyn am hynny, rhaid canu'r gloch i dynnu sylw Aelodau at y ffaith bod pleidlais ar fin cael ei chynnal. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bum munud wedi i'r gloch ddechrau canu, rhaid cynnal y bleidlais neu'r pleidleisiau.

Pleidleisio electronig

100. Os bydd pleidlais yn ofynnol, cynhelir pleidleisiau o'r fath yn electronig fel arfer ac felly cânt eu cofnodi'n unigol.

101. Ar waelod y cyfrifiadur, mae twll ar gyfer cerdyn sy'n dangos pwy yw pob Aelod. Hefyd mae tri botwm:

– **Gwyrdd:** i bleidleisio o blaid

– **Gwyn:** i ymatal rhag pleidleisio

– **Coch:** i bleidleisio yn erbyn

102. Bydd y Llywydd yn gofyn i'r Aelodau bleidleisio. Bydd Aelodau'n pleidleisio drwy bwysu'r botwm o'u dewis. Dangosir y canlyniadau ar sgriniau plasma'r Siambr ar ddiwedd pob pleidlais. Wedi i'r bleidlais ddod i ben, nid oes modd newid y pleidleisiau sydd wedi'u bwrw.

103. Cyhoeddir canlyniadau pob pleidlais ar ôl y cyfarfod ar y dudalen Pleidleisiau a Thrafodion a Chofnod y Trafodion. Hefyd, cyhoeddir Crynodeb o Bleidleisiau sy'n cynnwys yr holl fanylion am y modd y pleidleisiodd pob un o'r Aelodau ar bob eitem o fusnes.

Pleidleisio drwy godi dwylo

104. Os bydd y system bleidleisio electronig yn methu am unrhyw reswm, caiff y Llywydd benderfynu cynnal y bleidlais drwy godi dwylo. Mae hyn ar yr amod na fydd mwy na dau Aelod yn gwrthwynebu. Os cynhelir pleidlais drwy godi dwylo, gofynnir i'r holl Aelodau sydd o blaid y cynnig neu'r gwelliant godi eu llaw dde a'i dal i fyny nes rhoddir hysbysiad. Bydd y Clerc yn cyfrif y rheini sy'n pleidleisio o blaid. Wedyn gofynnir i'r holl Aelodau sydd yn erbyn y cynnig godi eu dwylo yn yr un modd, ac yna pob un o'r rheini sy'n dymuno ymatal.

Pleidleisio drwy alw'r gofrestr

105. Fel arall, caiff y Llywydd ddewis cynnal y bleidlais drwy alw'r gofrestr o'r holl Aelodau sy'n bresennol, yn nhrefn yr wyddor. Gelwir enw pob un o'r Aelodau a gofyn iddynt yn eu tro a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant, neu'n dymuno ymatal. Bydd y Clerc yn cofnodi canlyniad y bleidlais neu'r pleidleisiau.

106. Os bydd mwy na dau Aelod yn gwrthwynebu pleidleisio drwy godi dwylo, yna byddai'n rhaid cynnal y bleidlais drwy alw'r gofrestr.

Defnyddio'r bleidlais fwrw

107. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, os bydd nifer y pleidleisiau ar gynnig neu welliant yn gyfartal, caiff y Llywydd bleidleisio. Gelwir hon yn "bleidlais fwrw".

108. Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal, rhaid i bleidlais fwrw'r Llywydd gael ei rhoi:

- yn gadarnhaol os bydd rhagor o drafod ar y mater sydd gerbron y Cynulliad yn bosibl; ac
- yn negyddol os na fydd rhagor o drafod yn bosibl neu os ceir pleidlais ar welliant.

Dilysrwydd pleidlais

109. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf 10 Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na 10 o Aelodau'n bresennol i gymryd rhan, rhaid cadw'r busnes hwnnw a bydd y Llywydd yn trefnu i gynnal y bleidlais ar adeg arall.

Cyfyngiadau ar bleidleisio

110. Ni chaiff y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn ac eithrio:

- pan fydd yn ofynnol cael pleidlais fwrw (mae gwybodaeth am ddefnyddio'r bleidlais fwrw ym mharagraffau 106-107); a
- pan fydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol pasio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle na fydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid yn llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Cynulliad (hynny yw, 40 o blith 60 o Aelodau).

111. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, os bydd yn ofynnol i Aelod ddatgan buddiant mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i'r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw eitem o fusnes sy'n ymwneud â'r mater hwnnw.

Dadleuon

112. Dadleuon yw un o'r eitemau busnes sy'n ymddangos amlaf ar Agendâu'r Cyfarfod Llawn ac maent yn digwydd ar sail cynigion a gwelliannau (gweler paragraffau 45 - 50 ar gynigion a gwelliannau).

Mathau o ddadleuon

113. Mae nifer o fathau o ddadleuon yn cael eu cyflwyno mewn Cyfarfod Llawn, gan gynnwys:

- Dadleuon y Llywodraeth;
- Dadleuon y gwrthbleidiau ar bwnc o'u dewis;
- Dadleuon pwyllgor sy'n ymwneud ag adroddiad sydd wedi'i gyhoeddi gan y pwyllgor;
- Dadleuon sydd wedi'u cynnig gan Aelodau unigol nad ydynt yn aelodau o'r Llywodraeth; a
- Dadleuon deddfwriaethol.

Amseriad a threfn dadleuon

114. Ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, bydd yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer pob math arall o ddadleuon a'u hamlder yn cael eu pennu gan y Pwyllgor Busnes.

- 115.** Ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, ni fydd testun y dadleuon wedi'i gynnwys yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, ond fe'i cyhoeddir wythnos ymlaen llaw pan gyflwynir y cynnig perthnasol.
- 116.** Fel arfer, bydd dadl yn dechrau pan fydd Aelod yn gwneud y cynnig ac yn cyflwyno'r pwnc. Bydd y mater o bwy fydd yn gwneud y cynnig yn dibynnu ar y math o ddadl. Er enghraifft, byddai un o Weinidogion Cymru yn cyflwyno dadleuon y Llywodraeth a byddai Cadeirydd pwyllgor fel arfer yn cyflwyno dadl am adroddiad a luniwyd gan y pwyllgor hwnnw.
- 117.** Os bydd Aelod wedi cyflwyno gwelliant i'r cynnig, caiff ei wahodd i egluro pam mae'n gofyn i'r Cynulliad ddiwygio'r cynnig gwreiddiol. Wedyn, bydd y Llywydd yn galw ar Aelodau eraill sydd wedi gwneud cais i siarad ar y pwnc.
- 118.** Fel arfer, caiff y rhan fwyaf o gynigion a gwelliannau eu cyflwyno ymlaen llaw gan Reolwyr Busnes pob plaid wleidyddol, ond cânt eu cynnig yn y Siambr gan yr aelod o'r blaidd sydd â chyfrifoldeb dros bolisi'r portffolio y mae'r cynnig neu'r gwelliant yn berthnasol iddo.
- 119.** Mewn dadleuon ac eithrio dadleuon y Llywodraeth, caiff y Gweinidog gymryd rhan ac fel arfer bydd yn ymateb fel y siaradwr olaf ond un i'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau. Yn olaf, bydd yr Aelod a gyflwynodd y ddadl yn rhoi ei sylwadau terfynol i'r Cynulliad.
- 120.** Ar ddiwedd y ddadl, bydd y Llywydd yn gofyn i'r Cynulliad dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig. Gellir gofyn i Aelodau bleidleisio'n syth, neu gofynnir iddynt wneud hynny yn ystod y "cyfnod pleidleisio" sydd wedi'i ddynodi (mae mwy o wybodaeth ym mharagraffau 95 - 97 am benderfyniadau ar gynigion a gwelliannau).

Dadleuon Aelodau Unigol

- 121.** Mae dadleuon Aelodau Unigol yn digwydd ar sail cynigion fel pob math arall o ddadl.
- 122.** Mae dau brif ddull yn y Rheolau Sefydlog y gellir eu defnyddio i roi dadleuon gerbron. Caiff unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig 'heb ddyddiad trafod' ac annog Aelodau eraill i ychwanegu eu henwau i gefnogi'r cynnig. Mater i'r Pwyllgor Busnes wedyn yw penderfynu a fydd yn neilltuo amser i drafod y cynnig. Fel arall, caiff y Llywydd gynnal balot i bennu enw'r Aelod neu'r Aelodau y caiff amser ei neilltuo iddo neu iddynt er mwyn trafod cynnig a gyflwynwyd yn ei enw ef neu eu henwau hwy.
- 123.** Yn ymarferol, anaml y caiff y dulliau hyn eu defnyddio ac, yn hytrach, er mwyn annog cynigion gan Aelodau Unigol, bydd y Pwyllgor Busnes yn amserlennu Dadl Aelod Unigol o leiaf unwaith y tymor ac yn gwahodd pob Aelod unigol i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl. I fod yn gymwys i gael ei ystyried, mae'n rhaid i gynnig gael ei gyflwyno neu ei gefnogi gan o leiaf dri Aelod sy'n cynrychioli tair plaid wahanol. Yna, bydd y Pwyllgor Busnes yn dethol un cynnig ar gyfer cynnal dadl arno o blith y rhai cymwys a gyflwynwyd.

Dadleuon Byr

- 124.** Mae Dadleuon Byr yn wahanol i ddadleuon eraill gan eu bod yn digwydd ar sail pwnc yn hytrach na chynnig sydd wedi'i gyflwyno. Oherwydd hynny, nid oes angen penderfyniad arnynt gan y Cynulliad ar ffurf pleidlais.
- 125.** Gall unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, gael ei ddethol drwy falot a gynhelir gan y Llywydd ac wedyn caiff yr Aelod hwnnw gyflwyno pwnc ar gyfer dadl gyffredinol ar bwnc o ddiddordeb neu fater etholaethol.

Trefn y Ddadl Fer

- 126.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd yr Aelod a lwyddodd yn y balot yn agor y ddadl ac yn siarad am yr amser sydd wedi'i neilltuo iddo.
- 127.** Caiff yr Aelod ganiatáu i gyd-Aelodau gyfrannu o fewn yr amser sydd wedi'i neilltuo iddo am un funud yr un ar y mwyaf. Os bydd yr Aelod yn bwriadu caniatáu i Aelodau eraill gyfrannu, dylai gyhoeddi hyn ar ddechrau'r ddadl ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod digon o amser yn weddill o fewn yr amser sydd wedi'i neilltuo iddo ar gyfer yr Aelod(au) sy'n cyfrannu.
- 128.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan y caiff Gweinidog (neu, os bydd y mater o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn, aelod o Gomisiwn y Cynulliad) ymateb i'r ddadl. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru (neu Gomisiwn y Cynulliad) ymateb. Fodd bynnag, mae'n arfer cyffredin iddynt wneud hynny.

Dadleuon Deddfwriaethol

- 129.** Caiff y Cynulliad wneud deddfau, a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr enw ar ddeddfau arfaethedig yw Biliau; a daw Bil yn Ddeddf y Cynulliad pan gaiff ei basio gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ac ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol.
- 130.** Mae proses pedwar cam, fel arfer, er mwyn ystyried Bil, sef:
- Cyfnod 1 – Fel arfer, bydd y Bil yn cael ei gyfeirio at bwyllgor penodol i'w ystyried. Fel arfer, bydd y pwyllgor yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch yr hyn y dylai'r Bil ei wneud, yn cynnal cyfarfodydd gydag arbenigwyr ac aelodau'r cyhoedd i drafod y Bil, ac yn llunio adroddiad ar ei gasgliadau. Yna, bydd yr holl Aelodau yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn pleidleisio o blaid neu yn erbyn yr egwyddorion cyffredinol hynny. (Os nad ydynt yn cytuno arnynt, nid yw'r Bil yn mynd ymhellach.);
 - Cyfnod 2 – Mae Aelodau unigol yn cynnig gwelliannau i eiriad y Bil, ac mae'r pwyllgor yn eu trafod ac yn cynnal pleidlais arnynt;
 - Cyfnod 3 – Mae Aelodau unigol yn cynnig gwelliannau i eiriad y Bil, a chynhelir dadl a phleidlais arnynt yn y Cyfarfod Llawn.;
 - Cyfnod 4 – pleidlais gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn i basio testun terfynol y Bil.
- 131.** Mae cyfnod diwygio ychwanegol dewisol, sef Cyfnod adrodd, y gellir ei gynnwys rhwng cyfnodau 3 a 4, os bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cynnig hynny a bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo.
- 132.** Bydd yr amserlen ar gyfer y cyfnodau pwyllgor ar gyfer ystyried y Bil yn cael ei chytuno gan y Pwyllgor Busnes.

Strwythur dadl Cyfnod 1

- 133.** Bydd y Gweinidog neu'r Aelod sy'n Gyfrifol yn agor y ddadl ac yn siarad am yr amser a ddyrannwyd iddo.
- 134.** Bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n gyfrifol bob amser yn siarad yn ystod dadl Cyfnod 1 y Bil. Fel arfer, bydd yr araith yn crynhoi adroddiad terfynol y pwyllgor ar y Bil ac yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau ac argymhellion.

- 135.** Caiff Cadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol siarad hefyd os yw'r pwyllgorau hynny wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil.
- 136.** Caniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil. Fodd bynnag, mae'r Llywydd wedi nodi y caiff gwelliannau ond eu dethol ar gyfer eu trafod os ydynt wedi'u geirio mewn ffordd, pe bai'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn, na fyddai'n peri amheuaeth o ran a fyddai'r Cynulliad wedi cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil. Caniateir amser siarad ar gyfer y rhai sy'n cynnig gwelliannau, ynghyd â chyfraniadau gan unrhyw Aelod arall ar y meinciau cefn.
- 137.** Y Gweinidog neu'r Aelod sy'n Gyfrifol fydd yn cau'r ddadl ac yn siarad am weddill yr amser a ddyrannwyd iddo.

Strwythur dadl Cyfnod 3 / Cyfnod Adrodd

- 138.** Mae trafodion Cyfnod 3 yn cynnwys cynnig a gwaredu'r gwelliannau hynny a ddetolwyd ar gyfer eu trafod. Mae'r ddadl yn dilyn trefn y rhestr o welliannau wedi'u grwpio, ond cynhelir pleidlais ar y gwelliannau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y rhestr o welliannau wedi'u didoli.
- 139.** Ar gyfer pob grŵp o welliannau, mae'r ddadl yn dilyn y drefn a ganlyn:
- Bydd y Llywydd yn galw ar y sawl sy'n cynnig y prif welliant (y cyntaf yn y grŵp) i gynnig ei welliant a siarad amdano, ynghyd â gweddill y gwelliannau yn y grŵp;
 - Bydd y Llywydd yn gwahodd cynigwyr gwelliannau eraill yn y grŵp i siarad am eu gwelliannau hwy ac eraill yn y grŵp (sylwer na chaiff y gwelliannau hyn eu cynnig ar hyn o bryd, ond gelwir arnynt pan ddaw'r adeg i bleidleisio arnynt);
 - Bydd y Llywydd yn gwahodd Aelodau eraill i siarad am y gwelliannau yn y grŵp;
 - Bydd y Llywydd yn gwahodd y Gweinidog neu'r Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth i wneud sylwadau;
 - Bydd y Llywydd yn gwahodd cynigydd y prif welliant i ymateb i'r ddadl.
- 140.** Yna, bydd y Llywydd yn 'gofyn y cwestiwn' a ddylid derbyn y prif welliant. Os na fydd gwrthwynebiad, derbynnir y gwelliant. Os bydd gwrthwynebiad, bydd y Llywydd yn galw pleidiais electronig ar unwaith.
- 141.** Unwaith y bydd grŵp o welliannau wedi cael eu trafod ac y bydd y prif welliant wedi cael ei dderbyn neu ei wrthod, bydd y Llywydd yn symud ymlaen at y gwelliant nesaf yn y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Gallai hwn fod yn brif welliant yn y grŵp nesaf o welliannau, neu'n welliant a drafodwyd eisoes mewn grŵp blaenorol.

Cyfnod 4 – Y Cyfnod Terfynol

- 142.** Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd) yn y Cyfarfod Llawn, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig bod y Bil yn cael ei basio. Ni chaniateir ystyried cynnig o'r fath hyd nes y bydd pum diwrnod gwaith wedi pasio ers cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd). Fel arall, os yw'r Llywydd yn cytuno, caiff unrhyw Aelod, heb rhybudd, gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn syth ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd).

Cydsyniad Brenhinol

- 143.** Os nad oes her gyfreithiol o fewn pedair wythnos, bydd y Frenhines yn cytuno'n ffurfiol i wneud y Bil yn Ddeddf y Cynulliad (gelwir hyn yn Gydsyniad Brenhinol).
- 144.** Bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol pan fydd 'Breintlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi'u llofnodi gan Ei Mawrhydi ei hun yn datgan ei Chydsyniad' yn cael eu cyflwyno i'r Clerc.
- 145.** Ar ôl i Fil gael Cydsyniad Brenhinol, bydd y Llywydd yn gwneud cyhoeddiad i gadarnhau hynny yn ystod y Cyfarfod Llawn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Cwestiynau llafar

Cefndir

- 146.** Caiff Aelodau'r Cynulliad gyflwyno Cwestiynau Cynulliad ar gyfer eu hateb yn llafar yn y Cyfarfod Llawn i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad am unrhyw fater sydd o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Caiff Cwestiynau llafar eu hateb yn ystod Sesiwn Gwestiynau sydd wedi'i dynodi yn y Cyfarfod Llawn.
- 147.** Cyhoeddir cwestiynau ac atebion yng Nghofnod y Trafodion swyddogol y Cynulliad. Cwestiynau llafar yw un o'r ffyrdd mwyaf pwysig i Aelodau ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i gyfrif.

Amserlen ar gyfer cwestiynau llafar

- 148.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau bob wythnos, a bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau unwaith bob pedair wythnos. Gofynnir cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad hefyd unwaith bob pedair wythnos, yn unol ag amserlen y Cynulliad.
- 149.** Os nad yw'r Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol yn gallu ateb cwestiynau llafar ar ddiwrnod pan fyddai'n gwneud hynny fel arfer, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i un arall o Weinidogion Cymru ateb y cwestiynau hynny.

Cyflwyno cwestiynau llafar

- 150.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd y Llywydd yn cynnal balot i ddethol enwau Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau ar gyfer Sesiwn Gwestiynau benodol. Caiff pob Aelod roi ei enw ymlaen unwaith ar gyfer y Prif Weinidog a dwywaith ar gyfer Gweinidogion eraill.
- 151.** Rhaid i'r Aelod sydd wedi'i ddethol gyflwyno ei gwestiwn llafar wedyn o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y disgwylir i'r cwestiwn gael ei ateb. Rhaid i gwestiynau fod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Gweinidog dan sylw. Bydd cyfrifiadur yn pennu ar hap ym mha drefn y gofynnir y cwestiynau mewn Cyfarfod Llawn ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cynulliad.
- 152.** Nid oes balot ar gyfer cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol; caiff unrhyw Aelod sydd am gyflwyno cwestiwn wneud hynny.

Trafodion sesiynau cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn

- 153.** Yn ystod Sesiwn Gwestiynau, caiff yr Aelod perthnasol ei alw i ofyn y cwestiwn y mae wedi'i gyflwyno yn y drefn sydd wedi'i rhestru yn yr Agenda. Bydd yr Aelod yn darllen testun ei gwestiwn a rhoddir ateb llafar iddo gan y Gweinidog neu Gomisiynydd.

Amser ar gyfer cwestiynau

- 154.** Bydd yr amser dangosol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cwestiynau llafar yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes. Fodd bynnag, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi'r terfynau amser a ganlyn:
- bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau llafar am 60 munud ar y mwyaf (ers 19 Chwefror 2013, mae'r Llywodraeth wedi dyrannu 45 munud i Gwestiynau i'r Prif Weinidog);
 - bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am 45 munud ar y mwyaf;
 - bydd Comisiwn y Cynulliad yn ateb cwestiynau llafar am 30 munud ar y mwyaf.
- 155.** Yn ôl confensiwn, neilltuir pedwar munud ar gyfer pob cwestiwn llafar unigol. Amser dangosol yw hwn ac, yn ôl nifer yr Aelodau sy'n gwneud cais i ofyn cwestiynau atodol, rhoddir caniatâd iddynt gymryd mwy na phedwar munud yn ôl disgrisiwn y Llywydd.

Cwestiynau atodol

- 156.** Wedi i'r Gweinidog (neu'r Comisiynydd) roi ei ateb, rhaid i'r Llywydd alw'r Aelod i ofyn un cwestiwn arall sy'n ymwneud â'r cwestiwn y mae wedi'i gyflwyno.
- 157.** Gellir galw Aelodau eraill hefyd i ofyn cwestiwn atodol cysylltiedig yn ôl disgrisiwn y Llywydd, h.y. cwestiwn ar yr un testun â'r cwestiwn gwreiddiol. Bydd y Gweinidog yn ymateb i bob cwestiwn atodol yn ei dro.

Nifer y cwestiynau atodol

- 158.** Yn gyffredinol, caniateir i Aelod ofyn un cwestiwn atodol. Yn ôl confensiwn, caniateir i Aelod sy'n llefarydd dros ei blaid mewn maes penodol, ee yr Economi a Thrafnidiaeth, ofyn dau gwestiwn atodol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y pwnc hwnnw.

Cwestiynau'r arweinwyr

- 159.** Dyrennir amser penodol i gwestiynau arweinwyr y pleidiau ar ôl i'r ail gwestiwn a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog gael ei ateb bob wythnos. Caniateir i arweinydd pob un o'r gwrthbleidiau ofyn un cwestiwn i'r Prif Weinidog, wedi'i ddilyn gan ddau gwestiwn atodol. Bydd y drefn y caiff yr arweinwyr eu galw bob wythnos yn amrywio. Ni chaniateir i unrhyw Aelod arall ofyn cwestiynau atodol yn ystod hyn.

Cwestiynau'r llefarwyr

- 160.** O fis Medi 2014, yn ystod y cwestiynau i Weinidogion, caiff llefarwyr pleidiau gyfle i ofyn "Cwestiynau'r Llefarydd" ar ôl yr ail gwestiwn a gyflwynwyd, unwaith eto yn unol â rota. Gall pob llefarydd gwrthblaid ofyn un cwestiwn i Weinidog â phortffolio (neu Ddirprwy Weinidog) ynghyd â dau gwestiwn atodol ychwanegol. Nid oes hawl gan unrhyw Aelod arall ofyn cwestiynau atodol yn ystod cwestiynau'r llefarwyr.

Cwestiynau wedi'u grwpio

- 161.** Os bydd dau neu ragor o gwestiynau a gyflwynwyd yn debyg, gall y Llywydd roi caniatâd i grwpio'r cwestiynau hynny. Mater i'r Gweinidog neu Gomisiynydd sy'n ateb y cwestiwn yw gwneud y cais hwn i'r Llywydd.

162. Bydd y Llywydd yn galw'r Aelod i ofyn y cyntaf o'r cwestiynau sydd wedi'u grwpio. Hwn yw'r cwestiwn sy'n ymddangos gyntaf ar Agenda'r Cyfarfod Llawn. Fel arfer, bydd y Gweinidog neu Gomisiynydd yn ateb gan nodi bod y Llywydd wedi rhoi ei ganiatâd i grwpio'r cwestiwn ac yn mynd ymlaen i ymateb. Wedyn, bydd yr Aelod a gyflwynodd y cyntaf o'r cwestiynau sydd wedi'u grwpio yn cael ei wahodd i ofyn ei gwestiwn atodol. Ni fydd cwestiynau eraill a gyflwynwyd sydd wedi'u grwpio yn cael eu darllen yn uchel ond gelwir yr Aelodau a'u cyflwynodd i ofyn eu cwestiynau atodol wedyn.

163. Os bydd dau neu ragor o gwestiynau wedi'u grwpio, bydd yr amser a neilltuwyd ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei gyfuno.

Cwestiynau caeedig

164. Cwestiynau caeedig yw cwestiynau sy'n ymwneud ag ardal neu ranbarth penodol yng Nghymru. Fel arfer dim ond Aelodau eraill sy'n cynrychioli'r etholaeth neu ranbarth a grybwyllwyd yn y cwestiwn y bydd y Llywydd yn eu galw i ofyn cwestiynau atodol.

165. Yn ôl confensiwn, gellir galw Arweinwyr neu lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau atodol i gwestiynau am ardal neu ranbarth penodol, hyd yn oed os nad ydynt yn cynrychioli'r rhanbarth neu etholaeth dan sylw. Fodd bynnag, disgwylir iddynt sicrhau bod eu cwestiynau atodol yn ymwneud yn uniongyrchol o ran daearyddiaeth â'r cwestiwn a gyflwynwyd.

Atebion i gwestiynau

166. Mae'r ateb a roddir gan Weinidog neu Gomisiynydd i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd neu gwestiwn atodol yn fater iddo ef. Fel arfer, ni fydd y Llywydd yn dyfarnu ynghylch ei gynnwys.

167. Er na ellir cyflwyno cwestiynau i'w hateb gan Ddirprwy Weinidogion Cymru, maent yn cael ateb cwestiynau ar ran un o Weinidogion Cymru ar unrhyw fater y maent yn rhoi cymorth yn ei gylch. Yn unol â dyfarniadau blaenorol, mae trefniadau ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau dros ateb cwestiynau i un o Ddirprwy Weinidogion Cymru yn fater i Lywodraeth Cymru, nid y Llywydd.

Tynnu cwestiynau'n ôl

168. Mae Aelod a gyflwynodd gwestiwn i'w ateb ar lafar yn wreiddiol yn cael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn lle mae disgwyl iddo gael ei ateb.

Cwestiynau nas gofynnwyd

169. Os nad yw Aelod yn dymuno gofyn cwestiwn sydd wedi'i gyflwyno ond heb ei dynnu'n ôl cyn y Cyfarfod Llawn perthnasol, bydd wedyn yn gwestiwn "nas gofynnwyd".

Cwestiynau nas cyrhaeddwyd

170. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, os na chyrhaeddir unrhyw gwestiwn sydd wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Aelod gael ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Cyhoeddir yr ateb ysgrifenedig yng Nghofnod y Trafodion.

Cwestiynau Ysgrifenedig

171. Gall Aelodau hefyd gyflwyno cwestiynau'n benodol i gael ateb ysgrifenedig. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cwestiynau ysgrifenedig y gall Aelod eu cyflwyno. Cyhoeddir yr holl atebion ysgrifenedig yng Nghofnod y Trafodion. Nid yw cwestiynau ysgrifenedig yn rhan o drafodion y Cyfarfod Llawn.

Datganiadau llafar

Mathau o ddatganiadau llafar

172. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, caniateir i ddatganiadau llafar gael eu gwneud gan yr unigolion canlynol:
- y Llywydd;
 - aelod o Lywodraeth Cymru;
 - aelod o'r Comisiwn ynghylch unrhyw fater sy'n dod o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn; ac
 - unrhyw Aelod arall, lle mae pwnc y datganiad yn ymwneud ag un o swyddogaethau'r Cynulliad y mae'n gyfrifol amdani, gyda chytundeb y Llywydd (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, datganiad rhagarweiniol am eitem o ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnig gan Aelod gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth honno).
173. Mae'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn fath penodol arall o ddatganiad llafar. Mae gwybodaeth fanwl am hyn ym mharagraffau 41 - 42.

Hysbysiad am ddatganiadau llafar

174. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, caniateir trafod datganiadau gan y Llywydd, aelod o Lywodraeth Cymru neu'r Comiwn heb hysbysiad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gellir eu hychwanegu at Agenda'r Cyfarfod Llawn ar unrhyw bwynt. Mae hyn yn gwahaniaethu oddi wrth y gofyniad am rybudd o bum niwrnod ar gyfer dadleuon neu benderfyniadau ar gynigion (oni bai fod y Rheol Sefydlog berthnasol wedi'i hatal - mae gwybodaeth ym mharagraff 90 - 93 am atal y Rheolau Sefydlog).

Amseru a hyd datganiadau llafar

175. Fel arfer, rhoddir terfyn amser ar ddatganiadau yn Agenda'r Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae wedi dod yn arfer i ddatganiadau beidio â bod yn hwy na 1,000 o eiriau neu 10 munud er mwyn caniatáu digon o amser i Aelodau holi'r Aelod sy'n gwneud y datganiad.

Cwestiynau am ddatganiadau llafar

176. Caiff y Llywydd ganiatáu gofyn cwestiynau i Aelod sy'n gwneud datganiad.
177. Llefarywr y pleidiau a elwir yn gyntaf fel arfer i ofyn cwestiynau, ac wedyn unrhyw Aelod arall sydd wedi mynegi dymuniad i siarad. Gelwir Aelodau yn ôl disgresiwn y Llywydd.
178. Nid oes terfyn amser penodol ar gyfraniadau unigol. Mae arfer derbyniol wedi datblygu lle y caniateir i lefarywr y pleidiau roi rhagymadrodd byr cyn gofyn eu cwestiynau. Dylai siaradwyr eraill ofyn dau gwestiwn ar y mwyaf a dylai'r cwestiynau hynny fod yn gryno.

Ymyriadau yn ystod datganiadau llafar

179. Yn ôl confensiwn, ni ddylai Aelodau ymyrryd fel arfer yn ystod datganiad gan Aelod.

Datganiadau personol

180. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, caiff y Llywydd roi caniatâd i Aelod wneud datganiad personol ar yr amod y caiff hysbysiad ysgrifenedig am ei fwriad i wneud hynny ymlaen llaw.

- 181.** Mae'n rhaid i ddatganiadau personol fod yn fyr ac yn ffeithiol. Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn pennu na all datganiadau personol fod yn destun dadl. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ellir galw Aelod arall i gyfrannu i eitem fusnes o'r fath.
- 182.** Bu'r achlysuron pan gafwyd datganiadau personol yn brin, mewn gwirionedd, ac fe'u gwneir, er enghraifft, pan fydd Aelodau wedi croesi'r llawr neu wedi ymddiswyddo fel cadeirydd pwyllgor.

Datganiadau ysgrifenedig

- 183.** Caiff y Llywodraeth neu'r Comisiwn wneud datganiadau ysgrifenedig am unrhyw fater sydd o fewn eu priod gyfrifoldebau.
- 184.** Cyhoeddir pob datganiad ysgrifenedig ar wefan y Cynulliad ochr yn ochr â Chofnod y Trafodion. Cyhoeddir pob datganiad ysgrifenedig y Llywodraeth ar wefan y Llywodraeth hefyd.

Materion brys

Cwestiynau llafar brys

- 185.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, caiff Aelodau wneud cais i'r Llywydd i ofyn cwestiynau llafar brys i Weinidogion neu i Gomisiynwyr. Trafodir y cwestiynau hyn heb hysbysiad ac mae'r rheolau ar gyfer eu cyflwyno yn wahanol i'r rhai ar gyfer cwestiynau llafar cyffredin.

Meini prawf ar gyfer cwestiynau llafar brys

- 186.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ystyrir bod cwestiwn yn un brys os yw'r Llywydd o'r farn ei bod o bwys cyhoeddus brys i'r cwestiwn gael ei ofyn.
- 187.** Pan fydd cwestiwn brys wedi'i gyflwyno a hwnnw'n ymwneud â swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, gwneir y penderfyniad ynghylch a yw o bwys cyhoeddus brys gan y Dirprwy Lywydd yn hytrach na'r Llywydd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau o ganlyniad i rôl y Llywydd fel cadeirydd y Comisiwn. Nid oes cwestiynau brys o'r fath wedi cael eu cyflwyno hyd yn hyn.

Amser ar gyfer cwestiynau llafar brys

- 188.** Gellir trafod cwestiynau brys yn ystod y Cyfarfod Llawn ar unrhyw adeg a bennir gan y Llywydd ond mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol y dylid rhoi rhybudd o ddwy awr o leiaf i'r Llywydd. Yn ymarferol, bydd cwestiynau brys yn cael eu trafod fel arfer ar ddiwedd y sesiwn cwestiynau llafar.
- 189.** Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn pennu amser ar gyfer cwestiynau brys ond, yr arfer yw neilltuo amser dangosol o 10 munud ar gyfer yr holl gwestiynau brys.

Cwestiynau atodol i gwestiynau llafar brys

- 190.** Gellir galw Aelodau i ofyn cwestiynau atodol wedi i'r Gweinidog ateb y cwestiwn brys a gyflwynwyd. Gelwir Aelodau yn ôl disgrisiwn y Llywydd a dim ond un cwestiwn atodol a ganiateir iddynt fel arfer.

Grwpio cwestiynau llafar brys

- 191.** Mae cynsail ar gyfer grwpio cwestiynau llafar brys. Os bydd dau neu ragor o gwestiynau llafar brys yn cael eu grwpio, bydd yr amser dangosol o 10 munud ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei gyfuno.

Dadleuon brys

- 192.** Caniateir dadleuon brys mewn Cyfarfod Llawn ar sail cynnig gan unrhyw Aelod, yn amodol ar y weithdrefn a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Caniateir cynnal dadleuon brys ar faterion sydd o fewn cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad.
- 193.** Mae'n rhaid i Aelod wneud cais i'r Llywydd am ddadl frys ar bwnc. Er mwyn i'r cais fynd yn ei flaen, mae'n rhaid i'r Llywydd fod yn fodlon bod y mater o bwys cyhoeddus brys. Os bydd y Llywydd yn cytuno, yna mae'n rhaid i'r Aelod wneud cais i'r Cynulliad cyfan i gynnal dadl; a dim ond os bydd y Cynulliad yn cytuno iddo y cynhelir y ddadl.

Y ddadl frys ei hun

- 194.** Bydd dadleuon brys yn digwydd ar fater penodol, ac nid ar sail cynnig. Nid oes angen cyflwyno cynnig i gynnal dadl o'r fath ac, oherwydd hynny, ni chymerir pleidlais ar ddiwedd y ddadl. Mae dadleuon brys wedi'i bwriadu ar gyfer trafodaeth yn hytrach na phenderfyniad.
- 195.** Bydd yr Aelod a'i cynigiodd yn agor pob dadl frys. Bydd siaradwyr eraill sy'n dymuno siarad yn cael eu galw yn ôl disgrisiwn y Llywydd. Gelwir y Gweinidog neu Gomisiynydd perthnasol i siarad yn olaf ond un, cyn i'r Aelod a'i cynigiodd gloi'r ddadl.